# Alison Austin – Aelod o Fwrdd yr ASB

Yn amlinellu hanes proffesiynol Aelodau ein Bwrdd ac yn rhoi manylion am unrhyw fuddiannau busnes a allai fod ganddynt er mwyn sicrhau tryloywder.

## Proffil

Mae gan Alison lu o brofiad fel cyfarwyddwr anweithredol yn y sector cyhoeddus ac fel sylfaenydd ymgynghoriaeth cynaliadwyedd annibynnol. Mae hi wedi gweithio gydag amrywiaeth o fusnesau i ddatblygu strategaethau sy’n cwmpasu materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu. Treuliodd 25 mlynedd yn gweithio i Sainsbury’s Supermarkets Ltd. mewn rolau yn amrywio o Farchnata i Dechneg Bwyd a Chynaliadwyedd. Yn ystod y cyfnod hwn, datblygodd ddealltwriaeth gref o anghenion defnyddwyr yn y sector bwyd.

Ers gadael Sainsbury’s 16 mlynedd yn ôl, mae hi wedi parhau i ystyried buddiannau cydgysylltiedig defnyddwyr a chynaliadwyedd o fewn cwmnïau a sefydliadau’r sector cyhoeddus. Mae ei rolau blaenorol yn cynnwys Cyfarwyddwr Anweithredol y Cyngor Defnyddwyr D?r (corff statudol sy’n darparu llais a chyngor i ddefnyddwyr mewn marchnad reoleiddiedig), Aelod Annibynnol o Fwrdd Seafish, lle roedd hi’n cynrychioli Gogledd Iwerddon am chwe blynedd, ac Ymddiriedolwr i WRAP (Rhaglen Weithredu’r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau) ar strategaethau gwastraff bwyd a phecynnu. Mae hi wedi gweithio gydag SGS UK Ltd a Chymdeithas y Pridd ar lywodraethu archwilwyr ar gyfer ardystio safonau ac achredu.

Cafodd ei phenodi i Bwyllgor Ymgynghori'r ASB ar Fwydydd a Phrosesau Newydd (ACNFP) rhwng mis Mehefin 2021 a mis Tachwedd 2025 i gynrychioli anghenion defnyddwyr, er mwyn sicrhau bod eu buddiannau wrth wraidd trafodaethau'r Pwyllgor.

Mae Alison yn gyn-Ymddiriedolwr y Gynghrair Werdd (ers naw mlynedd) ac, ar hyn o bryd, yn Gyfarwyddwr cwmni cydweithredol gwres adnewyddadwy, sy'n darparu system wresogi ardal ar gyfer cyfadeilad cartref gofal. Mae hefyd yn aelod gweithredol o nifer o gynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol eraill yn ei hardal leol.

Cafodd OBE am ei gwasanaethau i gynaliadwyedd yn 2000.

## Cofrestr

Gofynnir i Aelodau Bwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) ddatgan unrhyw fuddiannau neu fuddiannau partïon cysylltiedig sy'n berthnasol i waith yr ASB yn ogystal â phob cyflogaeth, gwaith a phenodiad allanol y ceir tâl amdanynt (p'un a ydynt yn berthnasol ai peidio).

Gall unigolyn fod â buddiannau eraill ac, er bod yr ASB yn ymwybodol o'r rhain, bernir nad ydynt yn berthnasol i rôl yr Aelodau ac felly nid ydynt o fewn y cwmpas ar gyfer cyhoeddi.

Mae'r adran yn rheoli'r holl fuddiannau perthnasol i atal y risg o wrthdaro buddiannau canfyddedig, posib neu wirioneddol.

- Portffolio buddsoddi pensiynau wedi'i reoli gan drydydd parti
- Cyfrifon ISA Stociau a Chyfrannau, wedi'u rheoli gan drydydd parti
- Ymgynghorydd cynaliadwyedd yn masnachu fel Unig Fasnachwr